# NEGESEUON ALLWEDDOL BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

## Cyfarfod dros y we a gynhaliwyd ddydd Iau

## 28 Ionawr 2021

- Cyflwynwyd adroddiad a chynllun gweithredu Adolygiad Arferion Oedolion NWSAB1/2108 i'r Bwrdd. Derbyniodd yr aelodau yr adroddiad a'r argymhellion a fydd yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi ar wefan BDGC yn fuan.

- Derbyniwyd diweddariadau gan yr holl asiantaethau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o ran Covid. Roedd y Cadeirydd yn dymuno tynnu sylw at yr ymroddiad a chyfanswm aruthrol o waith ag ymdrech gan staff o'r **holl** asiantaethau, darparwyr a'r trydydd sector yn ystod y pandemig i gadw pobl yn saff. Mae'r Bwrdd yn cydnabod er bod staff yn parhau i fod o dan bwysau bod yr holl asiantaethau wedi parhau i gydweithio i ddarparu cefnogaeth pan fo'i angen.

- Y Bwrdd wedi derbyn diweddariadau mewn perthynas â phecynnau gwaith Cenedlaetholynghylch yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gofnodi troseddau yn erbyn pobl hŷn, a'r gwaith sydd yn cael ei wneud gan y BDAC o ran Adolygiad Llywodraethu o'r Trefniadau Diogelu.